# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Mai 2010

**At Jenny Randerson:**

Yn ystod y ddadl ar y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Ebrill, addewais ysgrifennu atoch ynghylch rhai o'r materion a godwyd gennych.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r Cynllun Teithio Rhatach wedi dod yn rhan o Gynllun Cerdyn Call Safonol ITSO. Roedd hyn yn cynnwys system cefn swyddfa a system rheoli cardiau call sy'n gallu cefnogi cynllun tebyg i'r cerdyn "oyster" yn Llundain. Eleni, rydym yn datblygu dau gynllun peilot er mwyn treialu'r system e-bwrs (e-purse) a'i ehangu i wasanaethau trên, cyn bod y cynllun cerdyn call integredig ac amlweinyddwr yn cael eu gyflwyno gam wrth gam ar draws Cymru.

Wrth i weithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus wella ac uwchraddio eu cerbydau, darperir gwell cyfleusterau ar gyfer pobl â nam ar eu synhwyrau, e.e. cyhoeddiadau clyweledol. Serch hynny, rwy'n cydnabod bod mwy o waith ar ôl i'w wneud. Rydym yn cydweithio â'r Adran Drafnidiaeth er mwyn  ymchwilio i gostau a manteision systemau clyweledol ar fysiau. Rydym yn disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau eleni, a byddwn wedyn yn cyhoeddi cyfarwyddyd. Mae rhai o wasanaethau bws pellter hir TrawsCambria yn cynnig cyhoeddiadau clyweledol, a byddwn yn ymestyn y gwasanaeth hwn fel rhan o'r gwaith ehangach i ddatblygu rhwydwaith TrawsCambria.

Er nad oes ymrwymiad penodol gan yr Adran Drafnidiaeth i drydaneiddio Cledrau'r Cymoedd, rydym yn pwyso ar Network Rail i'w gynnwys fel un o'u blaenoriaethau allweddol yng Nghyfnod Rheoli 5 (2014-19) fel bod Cymru'n gallu parhau i elwa ar y rhaglen drydaneiddio.

## Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Mai 2010

**At Jeff Cuthbert:**

Yn ystod y ddadl ar y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Ebrill, addewais ysgrifennu atoch ynghylch rhai o'r materion a godwyd gennych.

Roeddech yn holi am y cynlluniau i ailwampio a buddsoddi mewn cerbydau. Rydym wedi ymrwymo i wella'r cerbydau presennol a chyflwyno cerbydau newydd ar gyfer masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, ac rydym yn cyflwyno rhaglen i ailwampio rhai o'r trenau pellter hir Dosbarth 158 a Dosbarth 175, a'r trenau Dosbarth 153 yng ngorllewin Cymru. O ran Rheilffordd Cwm Rhymni, rydym yn monitro'r galw a'r capasiti'n ofalus ac rydym wedi cymryd y cam cychwynnol o ofyn i Drenau Arriva Cymru gyflwyno cynigion ar gyfer ymdrin â hyn. Byddaf wedyn yn ystyried y cynigion ac yn ysgrifennu atoch i roi diweddariad i chi.

Roeddech hefyd wedi gofyn am ddiweddariad ar Bwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru. Byddwn yn recriwtio'r Cadeirydd a'r aelodau eraill yn nes ymlaen eleni. Christine Court, cynrychiolydd Cymru ar y Pwyllgor Cynghori ar Gludiant Pobl Anabl, yn un fydd un o aelodau'r Pwyllgor hwn. Bydd y Pwyllgor yn gallu dylanwadu ar y broses o

ddatblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau trafnidiaeth cenedlaethol a rhanbarthol, drwy roi llais mwy effeithiol i deithwyr.

## Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Mai 2010

**At Eleanor Burnham:**

Yn ystod y ddadl ar y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Ebrill, addewais ysgrifennu atoch ynghylch rhai o'r materion a godwyd gennych.

O ran cludo nwyddau yng Ngogledd Cymru, rydym yn cymryd rhan mewn dwy astudiaeth ar hyn o bryd. Mae fy swyddogion yn cydweithio'n agos â TAITH ar eu cais am gyllid mewn perthynas â'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd, a hynny er mwyn bwrw ymlaen ag astudiaeth gwmpasu ar y posibilrwydd o ddatblygu gwasanaeth trên i gludo nwyddau o Ewrop i Ddulyn. Mae'r ail astudiaeth yn ystyried y posibilrwydd o sefydlu canolfan cyfuno nwyddau yn ardal Glannau Dyfrdwy. Prif ddiben y ganolfan fydd sicrhau bod nwyddau'n cael eu cludo'n effeithiol o'r cadwynau cyflenwi i'r mannau lle cânt eu defnyddio, drwy gyfuno sawl llwyth rhannol i greu un llwyth. Bydd y broses hon yn golygu y caiff cerbydau dosbarthu eu defnyddio'n fwy effeithiol ac felly bydd nifer y cerbydau ar y ffordd yn lleihau'n sylweddol.

Yn ogystal, rydym wedi cymeradwyo cais gan Kronospan am Grant Cyfleusterau Cludo Nwyddau i ehangu'r cyfleuster cludo nwyddau ar reilffordd ar ei safle yn y Waun. Bydd hyn yn lleihau'n sylweddol nifer y lorïau cludo pren ar y rhwydwaith ffyrdd yn y Gogledd. Rwyf wedi ymrwymo i wella cynaliadwyedd y diwydiant cludo nwyddau yng Nghymru, a byddaf yn parhau i weithio er mwyn nodi a chefnogi prosiectau cludo nwyddau a fydd yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymiadau yn Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru a'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.

Roeddech hefyd yn holi am y cynllun i ddeuoli'r rheilffordd rhwng Caer a'r Amwythig. Rydym wedi rhoi arian i Network Rail i gwblhau adroddiad gwerthuso manwl ar yr opsiynau ar gyfer Prosiect Lleihau'r Amser Teithio rhwng Gogledd a De Cymru, sy'n cynnwys ystyriaeth o'r opsiynau i ailddyblu rhan o'r rheilffordd sengl rhwng Cyffordd Gogledd Wrecsam a Chyffordd Saltney. Mae'r astudiaeth ddichonoldeb yn mynd rhagddi'n dda ac rwy'n disgwyl i Network Rail gwblhau eu hadroddiad erbyn diwedd mis Mehefin. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad yn nes ymlaen eleni ynghylch camau nesaf y prosiect.

## Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Mai 2010

**At Alun Davies:**

Yn ystod y ddadl ar y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Ebrill, addewais ysgrifennu atoch ynghylch rhai o'r materion a godwyd gennych.

Roeddech yn holi am Ffordd yr A465 ym Mlaenau'r Cymoedd, ac yn benodol am y manteision a gaiff busnesau lleol o'r cynllun. Yn ogystal â'r manteision a ddaw pan fydd y ffordd yn fwy hygyrch ar ôl i'r cynllun gael ei gwblhau, bydd deuoli'r A465 hefyd yn gyfle i gynyddu'r buddsoddiad yn y gymuned leol drwy gaffael, swyddi a sicrhau cyfranogiad y gymuned. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau'r budd economaidd a chymdeithasol mwyaf o'n

buddsoddiadau. Mae caffael prosiectau cyfalaf mawr fel gwelliannau ffyrdd yn gyfle i sicrhau manteision sylweddol ac ehangach i gymunedau yn ogystal â gwelliannau'n ymwneud â thrafnidiaeth.

Ceir cymalau cymdeithasol yn ein holl gontractau ar gyfer cynlluniau ffyrdd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr gynnig swyddi i bobl leol. Mae hyn yn rhoi cyfle i ystod eang o gontractwyr a busnesau lleol elwa ar y buddsoddiad hwn, gan sicrhau'r budd economaidd a chymdeithasol mwyaf i Gymru. Drwy gyflogi pobl leol pryd bynnag y bo modd, bydd yr arian a fuddsoddir mewn prosiectau'n dod â budd i'r gymuned leol ddwywaith.

Roeddech hefyd yn holi am rôl y consortia. Mae ein hadolygiad o Gynllunio a Chyflenwi Trafnidiaeth yng Nghymru yn dod i ben, ac rydym yn hynod falch o'r adborth positif rydym wedi'i gael. Mater i'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol fydd cynllunio rhanbarthol, pennu'r rhaglen gwelliannau trafnidiaeth a monitro cynnydd a pherfformiad. Yr awdurdodau sy'n rhan o'r consortia fydd yn gyfrifol am gyflawni cynlluniau yn eu rhanbarthau, a bwriedir cyflwyno rheolaethau er mwyn gwella'r modd y caiff rhaglenni eu rheoli a'u monitro. Bydd hyn yn golygu bod modd monitro perfformiad y Consortia yn ofalus wrth gyflawni amcanion Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

**Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Mai 2010**

**At Mohammad Asghar:**

Yn ystod y ddadl ar y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Ebrill, addewais ysgrifennu atoch ynghylch rhai o'r materion a godwyd gennych.

Wrth i weithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus wella ac uwchraddio eu cerbydau, darperir gwell cyfleusterau ar gyfer pobl â nam ar eu synhwyrau, megis cyhoeddiadau clyweledol. Serch hynny, rwy'n cydnabod bod mwy o waith ar ôl i'w wneud. Rydym yn cydweithio â'r Adran Trafnidiaeth er mwyn ymchwilio i gostau a manteision systemau clyweledol ar fysiau. Rydym yn disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau eleni, a byddwn wedyn yn cyhoeddi cyfarwyddyd. Mae rhai o wasanaethau bws pellter hir TrawsCambria yn cynnig cyhoeddiadau clyweledol, a byddwn yn ymestyn y gwasanaeth hwn fel rhan o'r gwaith ehangach i ddatblygu rhwydwaith TrawsCambria.

O ran teithio awyr yng Nghymru, cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghoriad trwyadl yn 2003 i asesu'r opsiynau ar gyfer gwasanaeth awyr oddi mewn i Gymru. Y casgliad ar y pryd oedd bod achos cryf o blaid gwasanaeth rhwng Caerdydd a gogledd-orllewin Cymru yn unig, ac felly sefydlwyd gwasanaeth rhwng Caerdydd ac Ynys Môn. Er y byddwn yn parhau i adolygu'r angen am wasanaethau eraill, ein blaenoriaeth yw buddsoddi i wella ffyrdd, rheilffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus ar draws Cymru fel y nodwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.

**Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Mai 2010**

**At William Graham:**

Yn ystod y ddadl ar y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Ebrill, addewais ysgrifennu atoch ynghylch rhai o'r materion a godwyd gennych.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn bwrw ymlaen â phrosiect sy'n ystyried rhai o'r anawsterau'n ymwneud â'r ffordd rhwng Pont-y-pŵl a Thalywain a'r atebion posibl, ac maent wedi penodi ymgynghorydd i nodi pa welliannau sydd eu hangen ar hyd y ffordd i'w gwneud yn fwy hygyrch a dibynadwy. Er nad yw'r gwaith hwn yn ymestyn mor bell â Blaenafon, bydd yn dod â budd i Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon ynghyd â gwell cysylltiadau â'r safle. Mae SEWTA wedi nodi yn eu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol bod y ffordd rhwng New Inn a Blaenafon yn gynllun priffordd posibl, ond bydd angen iddynt wneud mwy o waith dichonoldeb a dylunio.

Roeddech yn holi am leoliad ac amserlen yr orsaf newydd yng Nglynebwy. Rydym wedi dod o hyd i leoliad ar gyfer yr orsaf newydd ar y safle adfywio lle'r oedd yr hen waith dur gynt, ac rydym wedi gofyn i Network Rail gynnal astudiaeth ddichonoldeb fanwl a thechnegol er mwyn nodi costau a'r gofynion cynllunio’r orsaf newydd ac ymestyn y rheilffordd. Byddwn yn gallu rhoi mwy o wybodaeth am amserlen y prosiect pan fydd canlyniadau'r astudiaeth ddichonoldeb wedi dod i law.

Roeddech hefyd yn holi am strategaeth ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd. Mae strategaeth ar waith eisoes i bennu’r anghenion o ran cynnal a chadw ffyrdd ar lefel genedlaethol. Ers 2005, rydym wedi gweithio gyda'r awdurdodau lleol i gyfrifo’r gwaith cynnal a chadw sy’n weddill bob blwyddyn. Mae'r fenter hon yn unigryw i Gymru. Er mai'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am benderfyniadau buddsoddi, rydym wedi darparu £45 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol i lywodraeth leol ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd dros y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf yn sgil y cydweithio hwn. Rwyf hefyd wedi ychwanegu £5 miliwn at y grant ar gyfer 2010/11 yn ddiweddar. Yn ogystal, rwyf wedi darparu £2.75 miliwn i'r awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i lenwi'r ceudyllau a grëwyd gan y tywydd garw ym mis Ionawr. Byddaf yn ystyried yr angen am gymorth ariannol o 2011/12 ymlaen ar ôl gweld y ffigurau ar gyfer y gwaith cynnal a chadw sy’n weddill eleni ddiwedd yr haf.

**Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Mai 2010**

**At Paul Davies:**

Yn ystod y ddadl ar y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Ebrill, addewais ysgrifennu atoch ynghylch cynigion SWWITCH ar gyfer gwasanaethau trên ychwanegol i Abergwaun.

Cyflwynodd SWWITCH Achos Busnes Amlinellol ar gyfer gwasanaethau ychwanegol i Abergwaun yn 2007. Rydym yn adolygu'r achos busnes ar hyn o bryd, gyda’r bwriad o asesu'r achos o blaid gwasanaethau ychwanegol ymhellach. Caiff hyn ei ystyried wedyn ochr yn ochr â chynlluniau rheilffordd eraill a gynigir inni ar gyfer y dyfodol.

Mae'r adolygiad o'r cynlluniau yn y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn parhau, a gallaf eich sicrhau chi bod cynigion ar gyfer gwasanaethau ychwanegol i Abergwaun yn cael eu hystyried o fewn y broses hon.

**Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, 10 Mai 2010**

**At Trish Law:**

Yn ystod y ddadl ar y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Ebrill, addewais ysgrifennu atoch ynghylch rhai o'r materion a godwyd gennych am wasanaethau trên.

Rydym wedi comisiynu Network Rail i gynnal astudiaeth ddichonoldeb er mwyn ymestyn y gwasanaeth presennol o Barcffordd Glynebwy i orsaf newydd yn nhref Glynebwy. Bydd yr astudiaeth hefyd yn ystyried cyflwyno ail wasanaeth rhwng Glynebwy a Chasnewydd, a fyddai'n golygu bod trenau'n teithio bob hanner awr rhwng Glynebwy, Caerdydd a Chasnewydd. Nid yw'r astudiaeth yn cynnwys gorsafoedd newydd ar y llinell hon. Serch hynny, rwy'n ymwybodol bod SEWTA yn ystyried gorsafoedd newydd, gan gynnwys gorsaf yng Nghwm, fel rhan o astudiaeth a gomisiynwyd ganddynt.

O ran cyflwyno gwasanaeth rhwng Aber-big ac Abertyleri, nid oes gennym gynlluniau i gyflwyno gwasanaeth o'r fath ond byddwn yn parhau i weithio gyda'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.